YSGOL GYMUNEDOL PENIEL
POLISI CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

1. Cyflwyniad

Mae strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru, Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed, yn gosod fframwaith ar gyfer ymdrin â chamddefnyddio sylweddau. Un o feysydd blaenoriaeth Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed yn Atal Niwed a'i nod yw helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i beidio â chamddefnyddio sylweddau neu gamddefnyddio llai drwy eu dysgu am y niwed y gall camddefnyddio sylweddau ei achosi i'w hiechyd, eu teuluoedd ac i'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys gohirio'r oedran y bydd plant a phobl ifanc yn dechrau yfed. Mae hefyd yn cynnwys cymryd camau i nodi'r rhai sydd mewn perygl o gamddefnyddio sylweddau a/neu'r rhai y mae angen cymorth arnynt neu y mae angen eu cyfeirio at wybodaeth neu gefnogaeth ychwanegol neu at weithgareddau y gallant ymddiddori ynddynt.

Rydym yn cymryd rhan yng nghynllun Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin ac yn cydnabod gwerth ymdrin â materion fel ysgol gyfan gan gynnwys y cwricwlwm, amgylchedd yr ysgol, ethos, arweinyddiaeth a chysylltiadau â'r gymuned.

2. Diffinio Sylwedd

Dyma'r diffiniad safonol o gyffur neu sylwedd a ddefnyddir yn y polisi hwn - 'Sylwedd yw rhywbeth y mae pobl yn ei gymryd i newid y modd y maent yn teimlo, yn meddwl neu'n ymddwyn' (Y Cenhedloedd Unedig).

Mae'r polisi hwn yn ymwneud ag amrywiaeth o sylweddau gan gynnyws:

- tybaco, e-sigarets
- alcohol
- meddygyniaethau i'w prynu dros y cownter
- meddyginiaethau a geir drwy bresgripsiwn yn unig fel steroidau anabolig a bensodiasepin
- sylweddau anghyfreithlon fel heroin, cocên, ecstasi, amffetaminau, LSD, canabis, madarch hud
- sylweddau anweddol fel chwistrelli erosol, nwy bwtan, toddyddion a glud, cyffuriau penfeddwol cyfreithlon.

Defnyddir 'camddefnyddio' i gwmpasu cyffuriau anghyfreithlon a chyffuriau sy'n dderbyniol yn gymdeithasol e.e. alcohol, tybaco ac e-sigarets y gellir eu defnyddio mewn modd niweidiol a/neu annerbyniol yn gymdeithasol.

3. Y Nod

Grymuso plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau cyfrifol a gwybodus am sylweddau a ddefnyddir ac a gamddefnyddir yn y gymdeithas. Ein nod yw bod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau gan helpu disgyblion i ddeall y peryglon sydd ynghlwm wrth ddefnyddio a chamddefnyddio sylweddau.

4. Amcanion

- Cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Iach a sicrhau bod ysgol Peniel yn amgylchedd di-fwg.

- Sicrhau bod contractwyr/sefydliadau/unigolion sy'n defnyddio safle'r ysgol, yn ymweld â'r ysgol neu'n gweithio yno yn cytuno i gadw at y Polisi Camddefnyddio Sylweddau, gan sicrhau bod y safle'n ddi-fwg.

- Ni fydd yr ysgol yn caniatau i neb smygu mewn unrhyw ran o'r adeilad, y fynedfa na'r tir unrhyw adeg, waeth beth yw eu statws neu eu rheswm dros fod yn yr ysgol. Mae'r polisi hwn yn cynnwys y rhai sy'n defnyddio'r adeilad y tu allan i oriau'r ysgol.

- Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gamddefnyddio sylweddau.

- Cyflwyno negeseuon cyson am gamddefnyddio sylweddau fel rhan o gwricwlwm yr ysgol ac yn allgyrsiol.

- Rheoli digwyddiadau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau gan roi sylw dyledus i'n cyfrifoldebau cyfreithiol.

- Bod yn gefn i staff sydd am roi'r gorau i smygu drwy sicrhau bod y wybodaeth berthnasol ar gael/yn cael ei harddangos e.e. Llinell Gymorth Dim Smygu Cymru 0800 085 2219/ www.stopsmokingwales.com

- Codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni a rhannu gwybodaeth fel y bo'n briodol e.e. diwrnod Dim Smygu Cenedlaethol, Diwrnod Codi Ymwybyddiaeth o Alcohol.

5. Gweithredu

Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu sydd, yn y pen draw, yn gyfrifol am roi'r Polisi Camddefnyddio Sylweddau ar waith ac am reoli digwyddiadau neu weithdrefnau disgyblu.

Yn Ysgol Peniel, yr aelod o'r staff sydd â chyfrifoldeb dros Gamddefnyddio Sylweddau yw Miss Powell (Pennaeth) a Mrs Phillips (Cydgysylltydd ACRh).
Bydd Llywodraethwyr yr ysgol yn adolygu'r polisi hwn yn unol â'r cylch adolygu polisiau. Gall Llywodraethwyr hefyd fod yn rhan o achosion disgyblu yn ôl yr angen.

Bydd y Corff Llywodraethu yn enwebu un llywodraethwr i fod yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch.

6. Y Cwricwlwm

Bydd addysg effeithiol ynghylch Camddefnyddio Sylweddau yn fodd i blant a phobl ifanc ysgol Peniel wneud dewisiadau gwybodus a chyfrifol am eu bywydau. Ni chaiff ei chyflwyno fel pwnc ar wahân; bydd yn adlewyrchu dulliau maes dysgu Iechyd a Lles, sydd wrth wraidd y polisi hwn.

	Cam Cynnydd 1
	Caiff Addysg Camddefnyddio Sylweddau ei chyflwyno drwy ganolbwyntio ar les, a dylid rhoi cyfleoedd i blant: • meithrin dealltwriaeth o beryglon yn y cartref a'r tu allan i'r cartref.

	• deall bod meddyginiaeth yn eich helpu i wella salwch ond bod rhai cyffuriau'n beryglus.	
	Cam Cynnydd 2 a 3	
	Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion: • ysgwyddo rhagor o gyfrifoldeb dros gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach ac i ddeall • effeithiau niweidiol tybaco, alcohol a sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon eraill arnyn nhw ac eraill	Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion astudio: • Effaith rhai cyffuriau *e.e.* alcohol, toddyddion, tybaco ar y corff.

Bydd disgyblion yn dysgu am gamddefnyddio sylweddau yn y gwersi ACRh a Gwyddoniaeth yn bennaf ond hefyd ar draws yr holl meysydd dysgu.

6.1 Rhoi'r polisi ar waith

Yn Ysgol Peniel, bydd y disgyblion yn dysgu am gamddefnyddio sylweddau drwy dulliau a fydd yn cynnig:

- Gwybodaeth gywir a chyson a gyflwynir yn syml ac yn glir
- Deunyddiau darllen gwybodus a hawdd eu deall
- Sgyrsiau â chyfoedion ac oedolion sy'n arbenigwyr credadwy, yn ogystal ag athrawon.
- Tasgau a fydd yn eu hysgogi ac y byddant yn eu mwynhau
- Heiriau priodol mewn amgylchedd lle byddant yn teimlo'n ddigon diogel i gymryd rhan lawn ynddynt.

6.2 Defnyddio siaradwyr allanol

Pan gaiff pobl o asiantaethau allanol eu gwahodd i'r ysgol, 'ymwelwyr' fyddant a chyfrannu at raglen gytunedig yr ysgol y byddant yn hytrach na'n ei disodli. Bydd ymwelwyr sy'n cyflwyno addysg camddefnyddio sylweddau yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r rhaglen lawn ac yn cynnig eu harbenigedd penodol nhw yn ôl yr angen *e.e.* Swyddog Cyswllt Ysgolion yr Heddlu.

7. Hyfforddiant

Bydd y Tîm Rheoli Uwch yn sicrhau bod digon o hyfforddiant ac adnoddau i'r holl staff a fydd cyflawni nodau ac amcanion y Polisi Camddefnyddio Sylweddau.

8. Y Drefn Gwyno

Rhaid cyfeirio unrhyw gwynion am addysg camddefnyddio sylweddau at yr Uwch Dîm Rheoli, a fydd yn rhoi gwybod i'r Llywodraethwyr.

9. Cysylltu â'r Cyfryngau

Ni fydd staff Ysgol Peniel yn rhoi gwybod i'r wasg leol a'r cyfryngau cyfredinol am unrhyw ddigwyddiadau neu faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Bydd y Pennaeth, mewn cydweithrediad â'r AALl a'r Llywodraethwyr ym ymdrin yn bersonol â'r cyfryngau, gan gyfeirio'r holl ymholiadau gan y cyfryngau at Swyddfa'r Wasg, Cyngor Sir Caerfyrddin.

10. Trefniadau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau

Os yw staff yn gwybod am unrhyw drafferthion a/neu ddigwyddiadau ymwneud â disgyblion a chyffuriau, byddant yn dweud wrth yr aelod o'r staff. Bydd hwnnw neu honno wedyn yn rhoi gwybod i'r pennaeth, ymateb yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y risg. Bydd angen cymryd camau a'r unwaith mewn rhai achosion.

Rhaid cymryd camau ar unwaith os oes perygl amlwg *e.e.*

Enghraifft	**Camau i'w cymryd**
Mae oedolyn sy'n casglu plentyn neu berson ifanc i'w weld dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau	**Rhoi'r gwethdrefnau amddiffyn plant lleol ar waith a chysylltu â'r heddlu os yw'r oedolyn yn ymddwyn yn fygythiol.**
Mae plentyn a/neu berson ifanc/oedolyn i'w weld yn sâl neu'n anniogel o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau	**Ystyried gofyn am gyngor meddygol, nodi'r ffeithiau perthnasol a rhoi gwybod i'r rhiant/gofalwr.**
Mae sylweddau'n cael eu cyflenwi ar y safle neu gerllaw	**Cysylltu â'r heddlu**
Mae cyffuriau a reolir ar gael yn hawdd	**Cysylltu â'r heddlu**
Mae sbwriel yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, ac a all fod yn beryglus, ar y safle *e.e.* nodwyddau, chwistrelli	**Trefnu i gael gwared â'r eitemau'n ddiogel yn uno â rheolaethau/gweithdrefnau ac asesiadau risg yr ysgol o ran codi sbwriel/gwastraff clinigol/rheoli heintiau. Adolygu asesiad risg yr ysgol yn unol â'r safonau rheoli gofynnol. Cysylltu â'r heddlu os yw'n ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau'n anghyfreithlon. Rhoi gwybod i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol am y digwyddiad.**
Mae person neu bobl sydd wedi camddefnyddio sylweddau'n ymddwyn yn fygythiol.	**Cysylltu â'r heddlu ar unwaith**
Mae plentyn/person ifanc yn datgelu ei fod yn camddefnyddio cyffuriau neu fod ei rieni'n neu aelodau eraill o'r teulu'n gwneud hynny	**Cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol neu â'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau arbenigol i ofyn am gyngor ynghylch sut i ymateb.**

Gallai fod yn fwy priodol <u>oedi rhywfaint</u> e.e. eu arsylwi, cyfweld, ymgynghori ag asiantaethau eraill, monitro, pan fydd:

- Honiadau neu bryderon mwy cyffredinol am ddisgybl neu deulu penodol
- Datgeliadau anghyson/y gellir eu gwrthbrofi
- Pryderon ond dim tystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau neu ymddygiad niweidiol neu droseddol cysylltiedig (fel cyflenwi cyffuriau neu sylweddau niweidiol eraill)
- Pryderon ond dim tystiolaeth o berygl uniongyrchol.

<u>Sefydliadau eraill ddylai ymdrin â'r canlynol:</u>

- Ymchwilio i weithgareddau troseddol, gan gynnwys chwilio drwy ddillad neu eiddo personol unigolion.
- Ar wahân i gymorth cyntaf, dylid cysylltu â pherson meddygol priodol os oes argyfwng iechyd neu feddygol.
- Mater i'r gwasanaethau cymdeithasol yw asesu plant a theuluoedd sy'n agored i niwed a darparu cymorth a gwasanaethau iddynt.
- Rhaid defnyddio staff hyfforddedig i gyflwyno rhaglenni cwnsela a thrin cyffuriau gan wneud hynny fel arfer drwy'r gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd neu wasanaethau arbenigol camddefnyddio sylweddau.

11. Cysylltu â Rhieni

Gwneir pob ymdrech rhesymol i gysylltu â rhieni i roi gwybod iddynt fod angen chwilio drwy ddillad neu eiddo disgybl. Caiff y rhieni wybod am unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â chyffuriau, oni bai:

- Bod pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant
- Byddai hynny'n ymyrryd ag archwiliad gan yr ysgol
- Byddai hynny'n ymyrryd ag archwiliad gan yr heddlu
- Gallai arwain at fwy o niwed i'r plentyn am reswm arall.

12. Cysylltu â'r Heddlu

Gall yr heddlu ymateb mewn tair ffordd mewn achosion o gamddefnyddio sylweddau:
1. Casglu a gweinyddu unrhyw sylweddau amheus
2. Ymchwilio mewn partneriaeth;
3. Ymchwiliad ffurfiol gan yr heddlu.

Ym <u>MHOB</u> achos o gamddefnyddio sylweddau, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion ac nid â'r heddlu brys. Os nad yw ar gael, ac os yw'r sefyllfa'n argyfyngus, mae'n bosib y bydd yn rhaid ffonio 999 i gael ymaet ar fyrder.

13. Y drefn ar gyfer ymdrin â disgyl yn dilyn digwyddiad

Os yw staff yn gwybod am unrhyw anawsterau a/neu ddigwyddiadau'n ymwneud â disgyblion a sylweddau, byddant yn deud wrth y Pennaeth.

Bydd yr ymateb yn dibynnnu ar natur a difrifoldeb y risg. Weithiau bydd angen cymryd camau brys ond dro arall, bydd modd oedi rhywfaint i asesu gwybodaeth, gofyn am gyngor a chysylltu ag asiantaethau eraill. Ym mhob achos, iechyd a diogelwch y disgybl yw'r flaenoriaeth.

Os yw disgybl mewn perygl oherwydd cyflwr meddyliol diffygiol, dylid cysylltu â'r rhieni a gofyn iddynt ddod i reoli'r disgybl. Os nad yw'r rhieni ar gael, bydd angen gofyn i'r cyswllt brys ddod i gynorthwyo. Fel arall, gellir ffonio'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu i ofyn am gynor.

13.1 Cofnodi digwyddiadau

Yn Ysgol Peniel bydd y drefn ar gyfer cofnodi digwyddiadau'n cynnwys cofnod ffeithiol a chywir o'r holl ddigwyddiadau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau:

- Ffurflen cofnodi digwyddiad
- Ffurflen cofnodi cyfweliad

Bydd yr aelod cyfrifol o'r staff/yr heddlu, gan gynnwys o leiaf un tyst, yn llofnodi'r cofnod o'r digwyddiad a'r cyfweliad ac yn nodi'r dyddiad.

13.2 Y drefn ar gyfer ymdrin â digwyddiadau y tu allan i'r ysgol

Ni fydd yr ysgol yn ymdrin mewn unrhyw fodd â digwyddiadau y tu allan i oriau'r ysgol neu oddi ar y safle ac eithrio:

- Teithiau ac ymweliadau ysgol, pan fydd yr un rheolau a gwethdrefnau'n gymwys cyhyd ag y bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol.
- Trosglwyddo gwybodaeth i asiataethau perthnasol pan fydd diogelwch neu les disgybl dan fygythiad.
- Cynorthwyo'r heddlu i atal y tir o amgylch yr ysgol rhag cael eu ddefnyddio i brynu a gwerthu cyffuriau.
- Gwaredu sbwriel, nodwyddau ac ati o'r safle yn ddiogel.

14. Diogelu a chyfrinachedd

Ni fydd athrawon yn addo cadw gwybodaeth yn gyfrinachol. Bydd y disgyblion yn deall ffiniau cyfrinachedd. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid rhoi Gwethdrefnau Amddiffyn Plant ar waith os yw diogelwch neu les y disgybl (neu ddisgyblion eraill) dan fygythiad. Os yw disgybl yn datgelu gwybodaeth sensitif, nad yw'n hysbys yn gyffredinol, ac wedi gofyn i'r wybodaeth gael ei thrin yn gyfrinachol, caiff y mater ei drafod gydag uwch aelod o staff. Mae'n bosibl na ellir cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol er gwaethaf dymuniadau'r unigolyn sy'n ei rhoi:

- os yw'r achos yn ymwneud â diogelu plant neu bobl ifanc.
- os yw bywyd mewn perygl neu os oes perygl difrifol y caiff eraill eu niweidio
- os datgelir troseddau

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y disgybl yn cytuno â'r modd y mae'r ysgol yn bwriadu defnyddio gwybodaeth sensitif.

15. Y drefn ar gyfer ymdrin â digwyddiadau'n ymwneud â staff

Rhaid defnyddio Polisi a Gweithdrefnau Cyflogaeth a Disgyblu Cyngor Sir Caerfyrddin mewn achosionb yn ymwneud â staff a chamddefnyddio sylweddau.

16. Y weithdrefn ar gyfer ymdrin ag oedolion (heblaw staff)

Ni fydd Ysgol Peniel yn rhyddhau disgyblion i ofal oedolion eraill os oes posibilrwydd y caiff y disgybl hwnnw ei niweidio. Os oes tystiolaeth bod rhieni neu ofalwyr yn cyrraedd yr ysgol i gasglu disgyblion dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, cysylltir â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu yn unol â'r Polisi Amddiffyn Plant.

Os gwelir bod/y bu rhiant neu ymwelydd dan ddylanwad sylweddau ar safle'r ysgol gofynnir iddynt adael ar unwaith. Bydd staff yr ysgol yn sicrhau bod y rhiant/ymwelydd yn ddiogel, drwy ei oruchwylio os bydd angen, ar yr amod nad oes perygl y bydd hynny'n achosi niwed corfforol i weithwyr neu i eraill. Os yw'r rhiant/ymwelydd wedi cymryd sylweddau anghyfreithlon, bydd staff yn cysylltu â'r Heddlu.

17. Y withdrefn ar gyfer achosion o ddarganfod sylweddau neu eitemau'n ymwneud â sylweddau ar dir yr ysgol

Os ceir hyd i sylweddau amheus ar dir yr ysgol, awgrymir eich bod yn gwneud y canlynol:

- Rhaid dweud wrth y pennaeth
- Os oes rhywun mewn perygl posibl neu'n debygol o gael ei niweidio, ffoniwch 999
- Cysylltwch â'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion i gael gwared â'r eitemau ac i gael cyngor ynghylch y camau sydd i'w cymryd
- Os nad yw'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion ar gael - dylech gysylltu â'r orsaf heddlu leol, esbonio'r sefyllfa a gofyn am rif digwyddiad.
- Gofalwch fod tyst i'r broses o gasglu'r eitemau mewn cydweithrediad ag aelod arall o staff
- Cadwch yr eitemau mewn lleoliad addas neu daw'r heddlu
- Bydd angen llenwi ffurflen cofnodi digwyddiad a chael llofnod y tystion
- Ni ddylai staff geisio dadansoddi na blasu unrhyw sylweddau amheus
- Addysgu'r disgyblion

Dyma'r drefn pan geir hyd i nodwyddau, chwistrelli neu eitemau'n ymwneud â sylweddau ar safle'r ysgol:

- Rhaid dweud wrth y pennaeth
- Rhoi'r eitemau dan sylw mewn blwch eitemau miniog gan ddefnyddio'r dillad amddiffynnol a'r offer y cyfeirir atynt yn nogfen yr ysgol ynghylch 'trafod a gwaredu nodwyddau yn ddiogel' ac yn unol ag asesiad risg yr ysgol (bydd hyn yn cynnwys defnyddio menig a gefel neu gyfarpar arall er mwyn osgoi gafael yn yr eitemau ac osgoi anafiadau)
- Cysylltu â Gwasanaethau'r Amgylchedd i ddod i wacau'r blwch (mae manylion cysylltu yn y ddogfen arweiniad uchod yn yr ysgol)
- Rhoi gwybod i Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion
- Llenwi ffurflen cofnodi digwyddiad (a'i hanfon at e.e. y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a nodi ar y Ffurflen Cofnodi Digwyddiad fod hwn yn ddigwyddiad peryglus
- Addysgu'r disgyblion

17.1 Sylweddau anweddol

Mae Ysgol Peniel yn gyfrifol am reoli, defnyddio a chadw'n ddiogel sylweddau anweddol fel chwistrelli erosol, nwy bwtan, toddyddion a glud (sy'n gyffuriau penfeddwol cyfreithlon) yr awdurdodir eu defnyddio at ddibenion y cwricwlwm, yn unol ag Asesiadau Risg perthnasol CLEAPSS.

18. Cydraddoldeb

Fel cyflogwr sy'n darparu gwasanaethau, ni fydd Ysgol Peniel yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oed, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, hil neu ethnigrwydd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth nac ar sail yr iaith Gymraeg.

Caiff yr holl ddisgyblion, eu rhieni a'u gwarcheidwaid, gwirfoddolwyr, staff a llywodraethwyr yr ysgol eu gwerthfawrogi a chânt eu trin ag urddas a pharch.

Ni fydd yr ysgol yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth.

Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned ysgol gyfan i sicrhau bod ein hymrwymiad i gydraddoldeb a thegwch yn cael ei rannu a byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod ein hysgol yn hygyrch, yn groesawgar ac yn gynhwysol.

19. Monitro a gwerthuso

- Bydd cyfleoedd ar gael i'r disgyblion gymryd rhan a gwerthuso'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn ôl eu hoed, eu hanghenion a'u gallu.

- Gwahoddir y rhieni'n rheolaidd i roi sylwadau a syniadau ar sut i wella'r polisi a hynny ar lafar a thrwy gyfrwng holiaduron

- Cyngor yr ysgol (os yw hynny'n berthnasol)

- Caiff cynnydd ei fonitro'n achlysurol gan y Tîm Rheoli Uwch a'r llywodraethwyr; caiff problemau penodol eu trafod mewn cyfarfodydd staff fel y bo'n briodol.

20. Dogfennau Cyfeirio:

Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed - Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau i Gymru 2008 - 2018

Fersiwn Drafft o Arweiniad ar Addysg Camddefnyddio Sylweddau (2012)

Y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (2008)

Y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 - 7 oed yng Nghymru (2008)
Rheoliadau Mangreoedd etc Di-gwg (Cymru) 2007
Cynulliad Cenedlaethol Cymru